Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Casnewydd
Hartridge Farm Road
Casnewydd
Gwent
NP18 2LN

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/05/2017**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymraeg Casnewydd ar gyrion dwyreiniol y ddinas ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Casnewydd. Mae'n gwasanaethu ardal Ringland a rhan ddwyreiniol y ddinas. Mae 353 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 52 o ddisgyblion oed meithrin. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng 15 dosbarth o'r un oedran. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Ychydig iawn o ddisgyblion ddaw o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae tua 18% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n llai na'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Mae'r ysgol wedi adnabod bod 20% o ddisgyblion yn rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ychydig sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn is na'r canran cenedlaethol (25%). Ychydig iawn o ddisgyblion a ddaw o gefndir ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ionawr 2016 a chafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Chwefror 2010.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau yn ymwneud â'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Casnewydd yn 2016-2017 yw £3,442. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghasnewydd yw £4,945 a'r lleiafswm yw £2,865. Mae Ysgol Gymraeg Casnewydd yn safle 20 allan o 44 ysgol gynradd yng Nghasnewydd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Rhagorol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Rhagorol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog, wrth ddatblygu eu holl medrau ar draws y cwricwlwm, erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol
- medrau meddwl a dysgu annibynnol bron pob disgybl yn wych
- disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydiau ysgol am ddim yn cyflawni gystal a'u cyfoedion, ac mewn rhai meysydd maent yn cyflawni yn well na'u cyfoedion
- bron pob un disgybl yn dangos gwir barch a chwrteisi tuag at ei gilydd, staff ac oedolion, yn cydweithio'n effeithiol ac yn dangos ymddygiad ardderchog mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol
- staff yn darparu ystod o brofiadau dysgu arloesol a chreadigol iawn sy'n cymell bron bob disgybl yn eithriadol
- naws Gymreig gref i'r ysgol lle mae bron bob disgybl yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn hyderus ac yn gywir
- safon yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol gydag elfennau rhagorol
- gweithdrefnau effeithiol ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion
- yr ysgol yn gymuned ofalgar a chefnogol sy'n creu ethos cynhwysol, cynnes a chyfeillgar
- amgylchedd yr ysgol yn ddeniadol, ysgogol ac o ansawdd uchel

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth flaengar, gadarn ac effeithiol iawn
- gan aelodau'r uwch dîm rheoli rolau pendant sy'n cyfrannu'n eithriadol at welliannau
- gan arweinwyr a'r staff ddisgwyliadau uchel iawn o'u hunain, ei gilydd a'r disgyblion
- ysbryd tîm eithriadol o gryf yn yr ysgol
- systemau hunanarfarnu arbennig sydd wedi ymsefydlu'n gadarn dros gyfnod
- cynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau
- gan yr ysgol ystod o bartneriaethau effeithiol iawn sy'n gwneud cyfraniad eithriadol at godi safonau a chefnogi lles bron pob disgybl
- yr ysgol yn rhannu arfer ragorol i godi a chynnal safonau llythrennedd a rhifedd ar draws Cymru
- arweinwyr yn gwneud defnydd medrus iawn o staff ac adnoddau
- gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth bwrpasol o gryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella

## Argymhellion

A1 Parhau i gynyddu cyfraddau presenoldeb disgyblion

A2 Datblygu ymhellach rôl y llywodraethwyr i herio’r ysgol ynghylch ei pherfformiad

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio’r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Yn gyffredinol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau is na'r disgwyl am eu hoedran. Maent yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd da iawn erbyn diwedd y dosbarth Derbyn. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog wrth ddatblygu eu holl fedrau ar draws y cwricwlwm. Mae medrau meddwl a dysgu annibynnol bron bob disgybl yn wych. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron bob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da, o leiaf, ac maent yn cyflawni ar lefel sy'n uwch na'r disgwyl o ystyried eu man cychwyn. Mae'r perfformiad hwn yn gyson dros amser.

Mae bron bob un disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu targedau, gyda llawer yn gwneud cynnydd uwchlaw'r disgwyl. Mae'r disgyblion o allu uwch yn cyrraedd safonau uchel iawn yn eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob un o'r disgyblion yn siarad yn hyderus ac yn gwrando'n dda iawn ar oedolion ac ar ei gilydd. Mae hyn yn hyrwyddo lefel uchel o gyfathrebu ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith, ac yn gofyn ac yn ateb cwestiynau yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn rhannu syniadau gwych, yn trafod eu gwaith yn aeddfed ac yn gallu cynnig esboniadau estynedig am eu gweithgareddau llafar yn ystod cyfnodau 'chwarae chwilfrydig'.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio geirfa gynyddol amrywiol ac yn datblygu ffyrdd gwahanol o fynegi eu syniadau yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod, mae bron bob un yn siarad yn agored ac yn synhwyrol iawn am eu gwaith wrth gyfrannu'n frwdfrydig yn ystod trafodaethau dosbarth fel 'pam na ddylai merched gael addysg?'. Maent yn awyddus i sgwrsio gydag ymwelwyr a siarad am eu hoff brofiadau, fel addasu eu cynefinoedd cyfarwydd.

Mewn perthynas â'u mannau cychwyn, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda. Mae bron pob disgybl yn mwynhau darllen, ac yn siarad yn frwdfrydig am lyfrau maent wedi darllen a storïau y maent wedi ei glywed fel, yr iâr fach goch a stori'r geifr. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen gyda rhuglder ac yn trafod eu hoff lyfrau yn fyrlymus. Maent yn caffael dealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng llythrennau a seiniau.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn hyderus, yn rhugl a chyda mynegiant priodol. Darllenant amrywiaeth o lyfrau ffuglen a ffeithiol yn dda. Mae bron pob disgybl yn datblygu eu medrau ymchwil yn effeithiol iawn ac yn cymhwyso'r rhain yn llwyddiannus i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol wrth astudio themâu newydd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda iawn.  Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu mewn brawddegau llawn ac yn dangos dealltwriaeth dda o sillafu a chystrawen.  Mae llawer o ddisgyblion mwy galluog yn ysgrifennu storïau estynedig rhagorol a thestunau gwybodaeth manwl, fel llythyron, ffeithiau am eifr ac erthyglau fel ‘Helynt yr Hwla Hud’.  Mae’r rhan fwyaf yn defnyddio atalnodi sylfaenol ac yn sillafu geiriau cyffredin yn gywir.  Maent yn defnyddio ystod o eirfa ddychmygus i ychwanegu diddordeb at eu hysgrifennu, megis ‘teimlaf yn hapus fel melyn yr heulwen’ wrth ysgrifennu ymsom o safbwynt yr Arth Bach Gwyn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf yn adeiladu ar eu profiadau dysgu blaenorol yn llwyddiannus.  Maent yn ysgrifennu mewn paragraffau ac yn addasu arddull a chynnwys eu hysgrifennu yn effeithiol iawn er mwyn apelio at gynulleidfaoedd gwahanol.  Maent yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu gallu i gymhwyso’u medrau ysgrifennu gan ddefnyddio ystod o ffurfiau yn ardderchog ac yn creu gwaith estynedig a chreadigol yn rheolaidd.  Mae bron pob disgybl yn trosglwyddo’u medrau llythrennedd o safon uchel iawn ar draws meysydd eraill o’r cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron bob disgybl yn ymateb yn effeithiol i amrywiaeth o dasgau mathemategol, fel defnyddio rhifau, mesur, trin data a siâp.  Maent yn casglu a chyflwyno gwybodaeth yn systematig a chywir ar ffurf tablau a graffiau, er enghraifft wrth ymchwilio ar ba lethr mae’r car yn teithio orau.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn arbennig ac yn eu cymhwyso mewn meysydd dysgu eraill yn hyderus, gyda’r disgyblion hŷn yn gwneud hyn yn effeithiol, er enghraifft wrth helpu i brynu bwyd ar gyfer elusen yr henoed a darganfod lleoliad Robert Peary wrth ddefnyddio metrau wrth fesur ar fuarth yr ysgol.

Yn ystod cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd ardderchog yn eu medrau rhifedd mewn ystod eang o dasgau ar draws y cwricwlwm, fel datrys problemau rhesymu, disgrifio siapiau, a datblygu medrau ymchwilio pwrpasol.  Mae bron bob un yn defnyddio eu medrau mesur a thrin data yn dda iawn mewn amrywiaeth o weithgareddau.  Rhai o enghreifftiau diweddar y disgyblion yw cymharu tymheredd Caerdydd gyda Katmandu, ymchwilio i sawl person a wyliodd araith Martin Luther King a chreu cyfrifiad Casnewydd a chymharu gyda 2011.  Trwy gyflawni tasgau fel hyn, maent yn dysgu sut i ddadansoddi gwybodaeth, datrys problemau a datblygu medrau meddwl yn effeithiol iawn.  Mae medrau mathemategol disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu i safon uchel iawn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus iawn i greu ac arddangos eu gwaith ar draws y cwricwlwm.  Mae’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio meddalwedd pwrpasol yn hyderus, drwy roi cyfarwyddiadau cywir i’r wenynen i hedfan i’r blodau.  Erbyn diwedd y cyfnod, mae’r rhan fwyaf yn defnyddio basdata i ddidoli rhubannau amrywiol mewn gwers mathemateg.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio’r rhyngrwyd yn llwyddiannus i ymchwilio am wybodaeth.  Mae llawer yn defnyddio rhaglen basdata ar gyfer gwyliau ac i ddosbarthu creaduriaid bach.  Mae’r mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio sgrin werdd yn effeithiol i ysgrifennu adroddiad am eu harwyr.  Ar ddiwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn anfon a derbyn gwybodaeth yn electronig yn effeithiol, fel anfon

ebost at bennaeth gwersyll yr Urdd Llangrannog i ddiolch am y croeso yn ystod ymweliad preswyl.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwyliedig gan amlaf yn gyson uchel ac yn uwch na'r cyfartaledd o gymharu ag ysgolion tebyg dros y tair blynedd ddiwethaf. Ar y deilliant uwch na'r disgwyl, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf, ac eithrio 2014 mewn llythrennedd, lle'i gosodwyd yn y 50% uwch.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) dros y tair blynedd ddiwethaf mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol rhwng y 50% uwch a'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefel uwch (lefel 5), mae perfformiad disgyblion wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf.

Dros gyfnod o bedair blynedd, mae'r merched wedi perfformio'n well na'r bechgyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch bron ym mhob maes dysgu ac eithrio yn 2016 ar y deilliannau uwch. Yma, mae'r bechgyn wedi perfformio'n well mewn iaith a mathemateg. Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes gwahaniaeth nodedig rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y lefel ddisgwyliedig, ond ar y lefel uwch nid yw'r bechgyn yn tueddu i berfformio cystal â'r merched.

Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydiau ysgol am ddim yn cyflawni gystal a'u cyfoedion, ac mewn rhai meysydd maent yn cyflawni'n well na'u cyfoedion.

**Lles: Da**

Mae bron pob un disgybl yn dangos gwir barch a chwrteisi tuag at ei gilydd, staff ac oedolion. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn ardderchog mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd ffitrwydd ac yn cymryd rhan yn y diwrnodau bwyta'n iach.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n effeithiol ar dasgau mewn parau a grwpiau ac yn dangos brwdfrydedd eithriadol tuag at eu gwaith. Wrth iddynt weithio'n annibynnol, maent yn medru ymateb i gwestiynau, trafod ac ysgrifennu am brofiadau dwys mewn modd aeddfed a rhugl yn llwyddiannus iawn.

Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn awyddus i ymgymryd â chyfrifoldebau ac maent yn chwarae eu rôl yn dda. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cynrychioli llais y disgyblion eraill yn effeithiol. Yn ddiweddar, maent yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ystod amseroedd chwarae sydd yn annog mwy o ddisgyblion i ddefnyddio'r iaith yng ngwaith a bywyd yr ysgol. Mae'r 'mentoriaid cyfoedion' yn dangos ystod dda o fedrau cymdeithasol bywyd. Maent yn cymryd cyfrifoldebau yn aeddfed dros y disgyblion ieuengaf, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u medrau cymdeithasol.

Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol wedi gosod yr ysgol yn is na'r canolrif o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Serch hynny, mae

strategaethau cadarn yr ysgol i wella presenoldeb yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y gyfradd presenoldeb ddiweddaraf. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu arloesol a chreadigol iawn sy'n cymell bron pob disgybl yn eithriadol. Drwy fanteisio ar brofiadau yn yr ysgol a thu hwnt, mae'r athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn drylwyr. Maent yn sicrhau bod sylw i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, addysg grefyddol a'r meysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

Mae ystod eang o glybiau ar ôl ysgol, fel chwaraeon, celf ac arweinwyr digidol er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion ac i ddatblygu'u medrau ehangach yn wych. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau meddwl y disgyblion o safon uchel. Enghraifft ddychmygus iawn yw'r ffordd mae cyfuniad o strategaethau creadigol trwy ddrama, yn cael eu plethu'n gelfydd i'r cynllunio ar draws yr ysgol trwy weithgareddau sy'n herio metawybyddiaeth disgyblion. O ganlyniad, mae'n caniatáu i bron bob disgybl gwestiynu, trafod ac ysgrifennu am brofiadau dwys i ansawdd uchel iawn mewn modd aeddfed a rhugl.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth ddiddorol o ymweliadau addysgol yn rheolaidd i'r disgyblion, er enghraifft wrth iddynt ddilyn taith yr afon Taf a mesur cyflymder y llif. O ganlyniad, mae hyn yn arwain at gynnydd sylweddol mewn safonau a medrau disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu profiadau dychmygus gyda phwyslais effeithiol ar ddatblygu disgyblion gweithredol ac annibynnol. Mae'r athrawon yn rhoi sylw manwl i gynllunio medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm.

Mae naws Gymreig gref i'r ysgol. Mae'r athrawon yn defnyddio Cymraeg gloyw yn rheolaidd mewn gwersi. Yn ychwanegol, mae'r profiadau mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn eu cynllunio ar gyfer sesiynau chwarae chwilfrydig dyddiol yn cyfoethogi ac yn sicrhau bod iaith cyfathrebu Cymraeg bron pob un o'r disgyblion yn datblygu yn arbennig. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn hyderus ac yn gywir mewn gwersi a thu allan yn unol â'u hoedran a'u gallu. Mae Clwb Urdd llewyrchus yn yr ysgol ac mae llawer o ddisgyblion yn llwyddo mewn cystadlaethau amrywiol yn Eisteddfod yr Urdd. Mae'r ysgol yn darparu ystod ardderchog o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddiwylliant, hanes a thraddodiadau Cymru. Mae'r ysgol yn dathlu rhan fwyaf o agweddau ar fywyd Cymru yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o brofiadau ysgogol i ddisgyblion ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio'r rhandir a'r ardd lysiau a ffrwythau i addysgu'r disgyblion am gynaliadwyedd. Mae hyn yn eithriadol. O ganlyniad, mae'r ardal allanol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i hybu dealltwriaeth a phrofiadau'r holl ddisgyblion o faterion amgylcheddol.

Mae staff, ynghyd â'r eco-bwyllgor, yn annog disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol ac i chwarae rhan weithgar yn y gymuned leol ac o fewn y gymuned fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol gydag elfennau rhagorol. Mae gan yr holl athrawon ddisgwyliadau uchel, gwybodaeth bynciol dda a dealltwriaeth gadarn o anghenion y disgyblion yn eu dosbarth. Mae’r rhan fwyaf o wersi wedi’u cynllunio’n dda ac yn nodi amcanion dysgu yn glir. Mae’r athrawon yn annog disgyblion i bennu eu meini prawf llwyddiant yn annibynnol wrth feddwl am ‘beth yw da?’ o fewn eu gwersi llythrennedd. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn cael eu herio i weithio’n gyson drwy ymateb i dargedau personol pwrpasol sy’n eu hannog i ddatblygu’n ddysgwyr annibynnol.

Mae’r rhan fwyaf o’r gwersi yn adeiladu ar brofiadau dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae’r athrawon yn cynnig sbardun pwrpasol ac effeithiol i ennyn diddordeb y disgyblion yn gyson.

Lle mae’r addysgu yn effeithiol iawn, mae’r gweithgareddau dysgu yn cymell y disgyblion i gymryd rhan weithgar a llawn yn eu dysgu. Gwna pob un o’r staff ddefnydd da o adnoddau, yn enwedig TGCh, i gefnogi a chyfoethogi dysgu disgyblion. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn fodelau iaith da ac yn holi cwestiynau treiddgar er mwyn asesu dealltwriaeth disgyblion a’u hannog i feddwl yn unigol ac mewn parau. Mae gan y staff berthynas dda iawn gyda disgyblion, ac maent yn gefnogol gan feithrin y dysgu yn llwyddiannus. Mae ymdeimlad cryf iawn o waith tîm drwy’r ysgol gyda’r athrawon a’r staff ategol yn adnabod y disgyblion yn dda fel unigolion. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn awyddus i ddysgu.

Mae pob un o’r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Maent yn rhoi adborth adeiladol llafar ac ysgrifenedig i ddisgyblion er mwyn iddynt ddeall yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella safon eu gwaith. Mae gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu wedi’u gwreiddio ar draws yr ysgol. Darperir cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion gydgynllunio gyda’r athrawon, i fyfyrio ar eu dysgu eu hunain a’u cyfoedion ac i gyfrannu’n effeithiol at y broses o osod targedau ar gyfer gwella’u gwaith. Mae bron pob disgybl yn gwella agweddau o’r gwaith yn rheolaidd ac mae hyn yn cyfrannu’n effeithiol at gyrraedd a chynnal safonau uchel.

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn olrhain cynnydd y disgyblion yn effeithiol iawn ac, o ganlyniad, yn cynllunio’n benodol ar gyfer anghenion unigolion a grwpiau o ddysgwyr. Mae’r ysgol yn cydweithio ag athrawon eraill o ysgolion cynradd lleol a’r ysgol uwchradd er mwyn dod i gytundeb o ran safonau asesiadau athrawon. Mae’r adroddiadau i rieni a gofalwyr yn gynhwysfawr ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd a lles eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar a chefnogol sydd yn hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol iawn trwy ymweliadau a gweithgareddau cwricwlaidd. Er enghraifft, mae’r ‘wythnos amlddiwylliant’ yn galluogi’r disgyblion i ymchwilio i faterion sy’n effeithio ar Gymru a thu hwnt yn llwyddiannus. Mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrio ar faterion moesol o amgylch yr ysgol ac mewn gwaith cwricwlaidd, er enghraifft ynglŷn ag arweinwyr fel Martin Luther King a Ghandi.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo iechyd a lles disgyblion. Enghraifft o hyn yw'r siop ffrwythau ddyddiol a chymryd rhan yn y diwrnodau bwyta'n iach. Mae sesiynau ymarfer corff rheolaidd yn cael eu hatgyfnerthu gan ystod o weithgareddau cadw'n heini cyfoethog tu fewn a thu allan i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o asiantaethau arbenigol fel yr heddlu, y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar iechyd a lles y disgyblion. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr ac yn drwyadl. Mae athrawon yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar. Mae rhaglenni ymyrraeth pwrpasol yn ymateb i anghenion disgyblion unigol a grwpiau yn llwyddiannus iawn. Mae'r disgyblion yn cymryd rôl flaenllaw wrth lunio'r cynlluniau addysg unigol ac mae'r ysgol yn cynnwys rhieni yn yr adolygiadau rheolaidd. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni o leiaf y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol. Mae'r sesiynau dyddiol yn y 'cwtsh' yn cael effaith bositif iawn ar les grwpiau o ddisgyblion.

Mae pwyslais rheolaidd ar bresenoldeb da a chyson. Mae'r staff yn defnyddio systemau gwobrwyo yn gyson er mwyn dathlu llwyddiannau yn rheolaidd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n ddiflino gyda'r swyddog lles addysg er mwyn parhau i gynyddu cyfraddau presenoldeb disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn eithriadol o hapus a chanddi ethos cyfeillgar, cynnes a chynhwysol. Mae hyn yn seiliedig ar weithredu polisïau ble mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd cydraddoldeb mewn cymdeithas. Mae yna ymdeimlad cryf o ethos teuluol lle mae pob disgybl a'u teuluoedd yn cael eu croesawu, eu parchu a'u cefnogi.

Mae pwyslais effeithiol iawn ar adnabod a pharchu amrywiaethau ac mae hyn yn cael ei ddathlu yn llwyddiannus yn yr ysgol.

Mae'r ardal chwarae chwilfrydig dyddiol yn gyfleuster rhagorol sy'n cefnogi ac yn gwella'r dysgu ar gyfer pob disgybl y Cyfnod Sylfaen, ac yn datblygu'u medrau llafar a dysgu'n annibynnol yn effeithiol iawn. Er enghraifft, mae gweithfannau penodol yn galluogi disgyblion i wneud mwy o ddewisiadau ynglŷn â beth a sut maent yn dysgu.

Mae'r ystafelloedd tu fewn yn darparu amgylchedd dysgu sydd yn ysgogol, deniadol ac o ansawdd uchel. Mae'r arddangosfeydd o amgylch yr ysgol yn dathlu amrywiaeth eang o waith a llwyddiannau'r disgyblion. Mae hyn yn elfen rhagorol yng ngwaith yr ysgol sy'n atgyfnerthu a gwella dysgu'r disgyblion. Mae ystod eang o adnoddau o ansawdd da sydd yn ymateb i anghenion dysgu'r disgyblion, fel dewis eang o lyfrau darllen ac adnoddau dysgu pwrpasol.

Mae ardaloedd allanol pwrpasol sydd o amgylch yr ysgol wedi eu datblygu mewn ffordd greadigol iawn. Mae'r ddarpariaeth arbennig yma, a'r ystod eang o brofiadau yn yr awyr agored, yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol ac yn cyfrannu'n arwyddocaol at y

cynnydd cadarn a wna rhan fwyaf y disgyblion o'u man cychwyn. Mae’r rhandir, ysgol goedwig a’r waun wyllt yn adnoddau gwerthfawr iawn sydd yn cyfrannu’n effeithiol at brofiadau amgylcheddol y disgyblion. Enghraifft dda iawn o hyn yw’r ffordd effeithiol y mae’r pwll yn cael ei defnyddio i ddatblygu medrau archwilio disgyblion wrth ystyried nodweddion bwystfilod bach. Mae hyn i gyd yn cyfrannu at greu amgylchedd dysgu allanol o ansawdd uchel sy’n ysgogi disgyblion i gyflawni mewn awyrgylch diddorol a deniadol.

Caiff y safle a’r adeiladau eu cadw’n lân, graenus a diogel.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth flaengar, cadarn ac effeithiol iawn. Mae ganddi weledigaeth glir a disgwyliadau uchel a llwydda i arwain yr ysgol mewn modd dynamig ac ystyriol iawn. Mae gan aelodau’r uwch dîm rheoli rolau pendant, sy’n cyfrannu’n eithriadol at welliannau. Maent yn cydweithio’n gyfagos gyda’r pennaeth i sicrhau bod cymuned yr ysgol yn un drefnus ac wedi ei rheoli’n llwyddiannus iawn.

Mae’r pennaeth yn dosbarthu cyfrifioldebau’n dda iawn ymhlith yr holl staff. Mae gan y pennaeth strwythurau a systemau clir i gefnogi staff ac, o ganlyniad, mae gan arweinwyr ar staff ddisgwyliadau uchel iawn o’u hunain, ei gilydd a’r holl ddisgyblion. Mae’r ffocws ar godi safonau, drwy systemau hunanarfarnu grymus, yn glir ac yn sicrhau bod perfformiad yr ysgol yn cael ei herio’n gyson. Ceir ysbryd tim eithriadol o gryf. Mae pob cyfarfod rheoli, tîm a staff wedi ei strwythuro’n ofalus sy’n darparu llinellau cyfathrebu effeithiol rhwng arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr.

Mae’r ysgol yn rhoi sylw rhagorol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae’r cynllunio ar gyfer y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn ganolog i’r cynlluniau cwricwlwm, sydd o ansawdd uchel. Mae’r trefniadau hyn yn galluogi disgyblion i gymhwyso a datblygu’u medrau’n llwyddiannus mewn nifer o gyd-destunau bywyd go iawn ysgogol.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth bwrpasol o gryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella drwy teithiau dysgu ac adroddiadau cynhwysfawr y pennaeth. Mae ganddynt wybodaeth o’r materion sydd angen sylw wrth ddadansoddi data ac yn gwybod sut mae’r ysgol yn perfformio o’i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae’r llywodraethwyr yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad ac yn cychwyn datblygu ei rôl i herio’r ysgol yn briodol.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol systemau arfarnu arbennig sydd wedi ymsefydlu’n gadarn dros gyfnod. Trwy ddadansoddiad rheolaidd a thrylwyr o ystod o ddata, arsylwadau gwersi a chraffu ar waith y disgyblion, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth arbennig o gryfderau a meysydd ar gyfer datblygu’r ysgol. Mae'r ysgol yn casglu barn yr holl randeiliad yn effeithiol, yn dadansoddi canlyniadau ac yn gweithredu ar ddeilliannau’n ofalus. Mae’r prosesau hyn wedi’u cysylltu’n uniongyrchol â chynllunio strategol yr ysgol.

Cryfder yn y broses hunanarfarnu yw’r ffordd y mae pob aelod o staff yn rhannu eu syniadau, gwybodaeth ac arbenigedd. Mae arweinwyr y cwricwlwm yn cynnal adolygiadau trylwyr iawn i sicrhau bod ganddynt ddarlun clir a dealltwriaeth gadarn o safonau a darpariaeth. Mae'r blaenoriaethau, sy’n canolbwyntio’n glir ar godi safonau, yn cael eu cynnwys yn ofalus yng nghynllun datblygu'r ysgol. Defnyddir y ddogfen hon yn effeithiol iawn er mwyn hyrwyddo gwelliant a dyrannu adnoddau a chyfrifoldebau staff er mwyn bodloni'r blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod.

Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau da iawn gydag ysgolion eraill o fewn a thu allan i’r clwstwr. Mae hyn yn sicrhau cyfleoedd eang i rannu arfer dda ac i fyfyrio ar effaith eu harfer eu hunain ar ddysgu a lles disgyblion. O fewn yr ysgol, mae ymrwymiad staff i rannu eu gwybodaeth broffesiynol yn cyfrannu’n effeithiol iawn at ddatblygu dulliau cyffrous ar gyfer dysgu ac addysgu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae’r ysgol wedi ymchwilio i ddatblygu ffyrdd llwyddiannus o wella polisi marcio’r ysgol. Mae hyn wedi arwain at bron pob un o’r disgyblion yn gwella gwaith eu hunain yn effeithiol iawn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau effeithiol iawn sy'n gwneud cyfraniad eithriadol at godi safonau a chefnogi lles bron pob disgybl.

Mae’r ysgol yn rhannu ei harfer rhagorol i godi a chynnal safonau llythrennedd a rhifedd, ym myd dysgu ac addysgu, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac ar draws Cymru. Mae’n cyfrannu’n effeithiol i gynadleddau cenedlaethol, gweithdai a hyfforddiant mewn nifer o ysgolion cyfagos ac yn y gymuned ehangach. Mae hyn yn cryfhau cymhwysedd staff yr ysgol yn effeithiol iawn er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus yn Ysgol Gymraeg Casnewydd ac yn cyfrannu at greu ethos o ymchwilio a darparu addysgu a dysgu arloesol ymysg y staff.

Mae’r berthynas gyda rhieni yn dda iawn. Mae’r ysgol yn cyfathrebu’n effeithiol gyda rhieni drwy negeseuon testun, y wefan a llythyron yn wythnosol. Cynhelir bore ‘Clonc a Chlonc’ yn fisol ar gyfer rhieni'r blynyddoedd cynnar sy’n sefydlu perthynas gref gyda nhw. Yn ogystal, cynigir cefnogaeth i hybu lles teuluoedd sy’n helpu’r ysgol i gynnal safonau ymddygiad a chynnydd y disgyblion. Mae’r gymdeithas rhieni yn codi symiau sylweddol o arian yn flynyddol i gyfoethogi’r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion. Un enghraifft nodweddiadol yw’r cyfraniad tuag at deithiau dysgu’r disgyblion sy’n ysgogi’r addysgu a’r dysgu yn llwyddiannus iawn.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau niferus gyda’r gymuned leol sydd yn dylanwadu’n helaeth ar brofiadau dysgu’r disgyblion a’u hymwybyddiaeth o’u cymuned a’r pwysigrwydd o gyfrannu tuag ato. Daw nifer o drigolion i ymweld â’r ysgol yn rheolaidd i gyfoethogi’r profiadau dysgu yn effeithiol, er enghraifft cogydd seren ‘Michelin’ i goginio gyda’r disgyblion a barnwr lleol i arwain y disgyblion hŷn drwy brofiadau llys barn.

Mae’r trefniadau pontio gyda’r ysgol uwchradd yn fuddiol ac yn sicrhau bod y disgyblion yn trosglwyddo’n hyderus i’r cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae’r athrawon yn cydweithio’n llwyddiannus iawn ac yn cymryd yr awenau wrth safoni a chymedroli mewn cyfarfodydd ag ysgolion eraill er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb yn

asesiadau'r athrawon. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol iawn gydag amryw o asiantaethau arbenigol sydd yn sicrhau cefnogaeth dda i ddisgyblion bregus a'u teuluoedd.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol iawn o staff ac adnoddau eraill. Yn benodol, mae'r ysgol yn defnyddio cynorthwywyr addysgu yn ddychmygus iawn ac, o ganlyniad, maent yn gwneud cyfraniad eithriadol at ddysgu a lles disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth a thu hwnt. Maent yn gweithio'n agos gydag athrawon i ysgogi mwynhad disgyblion o'u dysgu ac i sicrhau eu bod yn cyflawni safonau uchel.

Mae pob un o'r staff yn elwa o hyfforddiant proffesiynol rheolaidd a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Yn sgil rhannu arfer dda yn fewnol, mae athrawon yn defnyddio strategaethau ysgrifennu drwy ddrama yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu medrau llafar ac ysgrifennu o ansawdd uchel. Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu'r athrawon yn effeithiol.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli adnoddau ariannol yn ofalus ac yn sicrhau bod gwariant yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cynlluniau datblygu'r ysgol. Mae'r grant amddifadedd yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i godi safonau llythrennedd a sicrhau lles grwpiau penodol o ddisgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar hyder y disgyblion hyn ac mae eu medrau sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd yn datblygu'n llwyddiannus iawn. Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng eu cyrhaeddiad a chyrhaeddiad disgyblion eraill.

O ystyried safonau uchel ac ansawdd eithriadol y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6802314 - Ysgol Gymraeg Casnewydd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 343 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 18.1 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 51 | 42 | 44 | 44 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 82.4 | 90.5 | 90.9 | 93.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 51 | 42 | 44 | 44 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 86.3 | 92.9 | 93.2 | 95.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 23.5 | 45.2 | 52.3 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 51 | 42 | 44 | 44 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.2 | 90.5 | 93.2 | 95.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 27.5 | 47.6 | 54.5 | 56.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 51 | 42 | 44 | 44 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.1 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 39.2 | 92.9 | 86.4 | 86.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6802314 - Ysgol Gymraeg Casnewydd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 343 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 18.1 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 59 | 50 | 41 | 40 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 94.9 | 94.0 | 97.6 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 59 | 50 | 41 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 98.3 | 92.0 | 97.6 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.8 | 64.0 | 58.5 | 62.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 59 | 50 | 41 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 98.3 | 94.0 | 95.1 | 92.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.7 | 50.0 | 48.8 | 57.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 59 | 50 | 41 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 96.6 | 98.0 | 97.6 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 52.5 | 58.0 | 58.5 | 70.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 59 | 50 | 41 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 97.6 | 97.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.7 | 56.0 | 63.4 | 70.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 98 | 98<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 98 | 98<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 98 | 97<br>99% | 1<br>1% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 98 | 98<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 98 | 98<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 98 | 98<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 98 | 98<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 98 | 97<br>99% | 1<br>1% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 98 | 95<br>97% | 3<br>3% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 98 | 96<br>98% | 2<br>2% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 98 | 83<br>85% | 15<br>15% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 98 | 94<br>96% | 4<br>4% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 109 | 79 | 28 | 1 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 1% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 108 | 89 | 17 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 82% | 16% | 2% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 109 | 84 | 23 | 1 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 77% | 21% | 1% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 109 | 74 | 32 | 3 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 68% | 29% | 3% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 109 | 52 | 50 | 3 | 0 | 4 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 48% | 46% | 3% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 109 | 79 | 27 | 1 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 72% | 25% | 1% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 108 | 82 | 26 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 109 | 54 | 39 | 7 | 1 | 8 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 50% | 36% | 6% | 1% | | |
| | | 49% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 109 | 65 | 32 | 5 | 0 | 7 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 60% | 29% | 5% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 109 | 60 | 42 | 1 | 1 | 5 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 55% | 39% | 1% | 1% | | |
| | | 59% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 109 | 75 | 33 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 69% | 30% | 1% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 107 | 54 | 37 | 3 | 0 | 13 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 35% | 3% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 109 | 54<br>50% | 40<br>37% | 14<br>13% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 109 | 77<br>71% | 27<br>25% | 3<br>3% | 1<br>1% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 109 | 51<br>47% | 37<br>34% | 10<br>9% | 0<br>0% | 11 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 109 | 63<br>58% | 41<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | 5 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 107 | 43<br>40% | 35<br>33% | 1<br>1% | 1<br>1% | 27 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 108 | 46<br>43% | 42<br>39% | 9<br>8% | 1<br>1% | 10 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 108 | 83<br>77% | 24<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Meinir Howells | Arolygydd Cofnodol |
| Delyth Jones | Arolygydd Tîm |
| Eleri Hurley | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Aled Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ceri Parry | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.